

CYHOEDDWDYD MIS GORFFENNAF 2022

Cynllun Cenedl: Cymru

Yn dilyn ein Cynllun Busnes, mae Cynllun Cymru'n nodi ar ba weithgareddau y bydd CITB yn canolbwyntio arnynt yng Nghymru er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r sefydliad dros y flwyddyn i ddod.

2022-2023



Mae Cynllun Cymru, fel ein Cynllun Busnes, yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â thair her allweddol ar gyfer y diwydiant:

1. Ymateb i'r galw am sgiliau

2. Adeiladu capasiti a gallu darpariaeth hyfforddiant

3. Anghenion sgiliau'r dyfodol

Gallwch ddarganfod mwy o fanylion ar yr heriau hyn, drwy edrych ar ein [Cynllun Busnes](#).



EIN GWAITH

Byddwn yn DARPARU

- Mae 'See Your Site' yn darparu mewnwelediad i fyfyrwyr i fywyd ar safle adeiladu. Mae'n helpu pobl ifanc i wneud y dewisiadau gorau o ran gyrfa iddynt hwy ac mae wedi'i ymestyn i gynnwys y rhai sy'n astudio mewn ysgolion yn ogystal â cholegau Addysg Bellach.
- Digwyddiadau Menywod i'r Diwydiant Adeiladu yn ystod mis Gorffennaf 2022 i gynnwys merched ym Mlwyddyn 8 a 9. Mae menywod yn parhau i gael eu tangynrychioli yn y diwydiant ac mae'r digwyddiadau'n rhoi cyfle i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o fenywod i adeiladu.
- Byddwn yn targedu cynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan yn 'See Your Site' o ysgolion a cholegau.
- Mae tri digwyddiad Menywod i'r Diwydiant Adeiladu wedi'u cynllunio, gyda'r nod o ymgysylltu â rhwng 60 a 100 o blant ysgol ym mhob digwyddiad.

CANLYNIAD

EIN GWAITH

Byddwn yn HWYLUSO

- Rhan ym menter 'Open Doors' 'Build UK', sy'n cynnig teithiau safle rhyngweithiol i'r rhai sydd â diddordeb ymuno â'r diwydiant.
- Digwyddiadau Wythnos Brentisiaeth Genedlaethol i ddenu, hysbysu ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o brentisiaid adeiladu.
- Adeiladu ar lwyddiant digwyddiadau 'Open Doors' blaenorol y gwnaethom eu cyflwyno'n rhithiol ac yn bersonol o ganlyniad i'r pandemig.
- Cyfres o ddigwyddiadau Wythnos Brentisiaeth Genedlaethol ar gyfer y rhai sydd eisoes yn astudio cymwysterau adeiladu.

CANLYNIAD

EIN GWAITH

Byddwn yn ANNOG

- Mwy o unigolion sy'n gweithio ym maes adeiladu i ddod yn Llysgenhadon STEM, Am Adeiladu. Bydd hyn yn ei dro, yn cynyddu ymgysylltiad addysgol i amlygu'r ystod eang o yrfaedd sydd ar gael ym maes adeiladu.
- Rhwydwaith Pencampwr CSR - fforwm i rannu arfer gorau am werth cymdeithasol ar draws Cymru. Bydd aelodau'n dod o ystod o gwmnïau adeiladu o wahanol faint ac yn cynnig cyfleoedd i gydweithio. Bydd y fforwm hefyd yn helpu i ddatblygu datrysiadau i fodloni targedau gwerth cymdeithasol.
- Hybu rhagoriaeth trwy gystadlaethau sgiliau megis SkillBuild, gan helpu i godi dyheadau a gwella datblygiad sgiliau'r myfyrwyr adeiladu.
- Mwy o fyfyrwyr i ddewis gyrfa mewn adeiladu drwy ddewis cymwysterau TGAU, AS a Lefel A perthnasol. Byddwn yn cyflawni hyn trwy well ymgysylltiad strwythurol rhwng diwydiant a darparwyr addysg. Bydd cysylltiadau diwydiant i ysgolion yn cael eu cryfhau trwy ddarpariaeth athrawon 'gwadd', ymweliadau â'r safle a gweithgareddau dosbarth rhyngweithiol. Byddwn yn annog cyflogwyr i ddatblygu deunyddiau cefnogi i wella dysg dosbarth.
- Profiad gwaith a chyfleoedd blasu trwy ein Canolfannau Ar y Safle. Byddwn yn darparu profiad ymarferol hanfodol i ddysgwyr llawn amser i hwyluso datblygiad esmwyth i brentisiaeth.
- Y nifer sy'n ymgymryd â Swyddi dan Hyfforddiant mewn colegau. Bydd Swyddi dan Hyfforddiant yn gyfle dysgu newydd wedi'i sicrhau i ddysgwyr sydd angen cymorth a mewnwelediad ychwanegol cyn ymuno â'r sector.
- Annog 30 o Lysgenhadon STEM, Am Adeiladu ychwanegol i gofrestru â'r cynllun Llysgenhadon STEM, Am Adeiladu, gyda tharged parhaus o 20 Llysgenhadon STEM newydd. Darparu pedair sesiwn CPD sy'n benodol i Gymru i ddarpar Lysgenhadon.
- Rydym yn anelu at gadw o leiaf 15 o gyflogwyr yn rhan o'r rhwydwaith, gyda phedwar ymgysylltiad yn digwydd bob blwyddyn. Cynyddu nifer y cwmnïau sy'n cael mynediad at gynnyrch CITB, cefnogi ein digwyddiadau a darparu gwell gwerth cymdeithasol.
- Cynyddu nifer y rhai sy'n cymryd rhan mewn cystadlaethau adeiladu o 10% ar draws Cymru.
- Hyrwyddo'r prosiect Hyfforddiant Adnoddau Rhith-amgylchedd Adeiladu i ysgolion.
- Pedwar darparwr hyfforddiant yn cyflwyno cynlluniau peilot Swyddi dan Hyfforddiant mewn gwaith coed ar y safle, gyda 40 o ddysgwyr yn cymryd rhan.

CANLYNIAD

Ei nod am y flwyddyn nesaf: Cyflenwad digonol ac amrywiol o unigolion newydd i fodloni anghenion y diwydiant.

Ein nod am y flwyddyn nesaf

Gwella sut mae'r systemau hyfforddi a datblygu'n gweithio yn y diwydiant adeiladu, fel y gall mwy o gwmnïau gael mynediad at yr hyfforddiant o ansawdd uchel maent ei angen a lleihau'r bwlch mewn sgiliau.

BYDDWN YN DARPARU

GWEITHGAREDDAU

Datrysiaid cyflawn ar gyfer hyfforddiant prentisiaeth arbenigol. Mewn ymateb i alw gan gyflogwyr, bydd y cynnig prentisiaeth bresennol yn cael ei gynnal a'i gefnogi gan y cytundeb arbenigol.

Cyfras o adnoddau cymorth i gyflogwyr i wella dealltwriaeth o'r broses prentisiaethau newydd a chymwysterau, yn ogystal â chymorth ychwanegol i gefnogi cymhwysedd a chyflawniad prentisiaid.

CANLYNIAD

Llwyddo i ddarparu
20-30
o brentisiaethau arbenigol.

Cynnydd mewn digwyddiadau ymgysylltu â chyflogwyr, gydag o leiaf un digwyddiad fesul darparwr prentisiaeth.

BYDDWN YN HWYLUSO

GWEITHGAREDDAU

Mwy o ymwybyddiaeth o grantiau, cynnyrch a chyllid CITB – gan sicrhau bod gan gyflogwyr fynediad at y cymorth cywir ar gyfer eu hanghenion sgiliau. Bydd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth o Grwpiau Hyfforddi fel bod cyflogwyr yn gallu cael mynediad at hyfforddiant cost-effeithiol o ansawdd uchel yn lleol.

Gwella perfformiad colegau Addysg Bellach trwy gydweithio â Cholegau Cymru, Estyn a Llywodraeth Cymru i wella ansawdd y rhai sy'n ymuno â'r sector am y tro cyntaf.

CANLYNIAD

Cynyddu ceisiadau trwy'r Gronfa Sgiliau a Hyfforddiant
10%
Cynnydd yn nifer y cyflogwyr sy'n cael hyfforddiant ac sy'n elwa o aelodaeth o'r Grŵp Hyfforddi.

Cynyddu nifer y fframweithiau prentisiaeth a gwblhawyd yn llwyddiannus.

Datblygu capasiti a gallu ein

DARPARIAETH HYFFORDDIANT

Ein nod am y flwyddyn nesaf

Bod gan gyflogwyr y cynhyrchion a'r gwasanaethau cywir i allu hyfforddi eu gweithlu, yn awr ac yn y dyfodol

BYDDWN YN:

Gweithio gyda diwydiant i gytuno ar fframweithiau prentisiaeth adeiladu newydd ar gyfer Llwybrau Prentisiaeth Newydd i'w darparu o fis Medi 2022.

Cyllid grant CITB a chyfraddau cyllid Llywodraeth Cymru wedi'u cytuno ar gyfer Llwybrau Prentisiaethau Newydd.

Sicrhau bod cyflogwyr Cymru yn cael y cyfle i gyfrannu at ddatblygu galwedigaethau sy'n hollbwysig i ddiogelwch trwy adolygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Mae effaith gwaith Galwedigaethau Critigol Diogelwch y DU yn adlewyrchu barn cyflogwyr Cymru yn addas.

Cymwysterau digidol newydd fel gofyniad cyflogwr yn y fframwaith prentisiaeth adeiladu newydd, a fydd yn cynnwys cymhwyster digidol drwy ddysg dan arweiniad 30 awr.

Bydd prentisiaid yn fwy parod i ddefnyddio sgiliau digidol yn y gweithle.

BYDDWN YN HWYLUSO:

Datblygu'r Fframwaith Prentisiaeth Triniaeth Adeiladau Diwydiannol i fodloni anghenion sgiliau gwyrdd, sero net a gofynion ôl-osod.

Proffesiynoli Triniaeth Adeiladau Diwydiannol a gwella cymhwysedd y gweithlu ac ansawdd cyffredinol y gwaith a gyflawnir.

Ymgorffori cyflogwyr a rhanddeiliaid Cymru wrth ddatblygu a diwygio Safonau hyfforddi, megis safonau peiriannau.

Safonau hyfforddi newydd a diwygiedig sy'n adlewyrchu anghenion cyflogwyr Cymru.

LLUNIO DYFODOL Y

trwy gefnogi datblygiad sgiliau a hyfforddiant annhechnegol

ADEILADU



Gweithio gyda'n partneriaid yng Nghymru

Byddwn yn gweithio'n adeiladol gyda'n partneriaid yng Nghymru dros y flwyddyn nesaf. Mae'r heriau yr ydym yn bwriadu mynd i'r afael â nhw fel rhan o'n gwaith, megis y bwlch sgiliau, yn gofyn am ddull cydweithredol, gan ddod ag ystod o randdeiliaid a llunwyr polisi ynghyd i ddynodi materion cyfredol a'r dyfodol, datblygu atebion a rhannu dysgu.

Byddwn ni'n:

- Gweithio i wella sgiliau staff yng Ngyrfa Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) gyda gwybodaeth am y diwydiant i sicrhau bod adeiladu yn cael ei flaenoriaethu yn eu gwaith.
- Gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau bod adeiladu yn sector o flaenoriaeth ar gyfer ariannu sgiliau.
- Cydweithio â Llywodraeth Cymru, Cyrff Dyfarnu fel Cymwysterau Cymru, CBAC, City and Guilds ac EAL i sicrhau bod safonau a chymwysterau ar gael i fodloni anghenion cyflogwyr yng Nghymru.



LLUNIO DYFODOL Y
trwy gefnogi datblygiad sgiliau a hyfforddiant annhechnegol
ADEILADU

